

## Caredigrwydd cyson

*“Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i’ch gilydd fel y maddeuodd Duw yng Nghrist i chwi.” (adn. 32)*

### Beth am ddarllen Effesiaid 4:17–30 ac yna myfyrio

Mae’r adnod heddiw yn un y byddaf yn ceisio ei hadrodd i mi fy hun bron bob dydd. O’i mewn, mae holl gerddoriaeth gras. Beth am edrych ar y geiriau sydd yn rhagflaenu’r adnod. Dyma wrthgyferbyniad. Maent yn galw i’n sylw bopeth sydd yn ddigalon yn ein byd, yn sôn am chwerwder, llid, digofaint, twrw, sen a drwgdeimlad. Mae fel petai’r cymylau yn rholio ar draws yr haul, yn cuddio ei wenau. Yna, yn sydyn, fe ddown ar draws y geiriau: “Byddwch yn dirion wrth eich gilydd; yn dyner eich calon, yn maddau i’ch gilydd,” ac mae’n ymdebygu i wres yr haul yn torri drwy’r cymylau ac yn dwyn cysur i’r enaid.

Mae yna ddau beth am gariad at ein gilydd sydd angen eu nodi. Y peth cyntaf yw nad oes neb yn edifar am fod yn garedig. Mae yna lawer o bethau yr wyf wedi eu gwneud yn fy mywyd ac, o edrych yn ôl, yr wyf yn edifar ar eu cyfrif. Ond, nid oes dim edifeirwch am unrhyw weithred o garedigrwydd. Peth arall y mae angen ei nodi ynglŷn â charedigrwydd yw fod gweithred o garedigrwydd yn byw yng nghof pobl pan fo gweithredoedd eraill wedi eu hanghofio. Mae Luc yn ysgrifennu yn llyfr yr Actau, flynyddoedd ar ôl y llongdrylliad ym Melita, am y caredigrwydd a ddangosodd trigolion yr ynys honno iddo a’r cof sydd yn parhau am y gweithredoedd hynny. Fe fu i’r ynyswyr yma ddangos caredigrwydd anarferol. Nid caredigrwydd yw holl angen y byd, ond mae’n rhan o angen ein byd ni. Beth am geisio cyfarfod â pheth o’r angen yma trwy ein gweithredoedd o garedigrwydd heddiw?

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 15:29–39; 26:6–13; Actau 9:36–42

### Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae esiampl Iesu a Dorcas yn esiampl i ni?
2. Pam fod caredigrwydd yn goroesi?

### Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i weithredu mewn caredigrwydd heddiw er mwyn byw yng nghof rhywun. Caniatâ i mi orchuddio pob gweithred o angharedigrwydd â gorchudd caredigrwydd, yr un gorchudd sydd wedi ei roi dros holl frychau a chreithiau fy mywyd i. Yn Iesu Grist. Amen.